



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Mesur cynnydd strategaeth hybu'r Gymraeg

Cychwyn ar y gwaith o fesur effaith y strategaeth hybu

Dyddiad: Hydref 2018

Mae Cyngor Sir Gâr wedi cychwyn ar waith paratoadol er mwyn eu galluogi i fesur cynnydd yn erbyn 5 amcan strategaeth hybu'r awdurdod lleol.

CEFNDIR

Mae safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu a gweithredu strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut maen nhw'n bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eu hardaloedd. Mae'r safonau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu i ba raddau maen nhw wedi dilyn y strategaeth honno gan adrodd ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal a'u hoedran, a'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd ganddynt i hybu defnyddio'r Gymraeg yn ystod y 5 mlynedd flaenorol.

Mae Cyngor Sir Gâr yn rhan o Fforwm Sirol Strategol sy'n tynnu ynghyd arbenigwyr yn y maes cynllunio ieithyddol o gyrrff amrywiol sy'n gweithio o fewn y sir. Mae aelodau'r Fforwm yn cynnwys y cynghorydd sydd yn gyfrifol am bortffolio'r Gymraeg, a chyrrff hyrwyddo'r Gymraeg megis yr Urdd, Mentrau Iaith, Mudiad Meithrin a Mudiad Ffermwyr Ifanc.

Gwelodd Cyngor Sir Gâr fod yna ddiffyg data am statws y Gymraeg o fewn y sir ac nad oedd fframwaith mewn lle ar gyfer mesur effaith y strategaeth hybu. Roedd y Cyngor yn awyddus i fesur effaith y strategaeth er mwyn canfod a oedd y gwaith a'r prosiectau a gynhaliwyd yn cyrraedd amcanion y strategaeth. Yn hytrach na chanolbwyntio ar ddata meintiol yn unig, roedd y Cyngor yn awyddus i ystyried ffactorau mwy ansoddol megis agwedd bobl y sir tuag at y Gymraeg ac ymwybyddiaeth pobl o'r Gymraeg.

GWAITH MAPIO CYCHWYNNOL

Comisiynwyd darn o waith mapio i fesur gweithgarwch hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir yn erbyn camau gweithredu'r strategaeth hybu. Roedd y gwaith mapio'n canfod pa amcan o fewn y strategaeth yr oedd y sefydliadau sydd yn rhan o'r Fforwm Sirol yn gweithio tuag ato. Cynhaliwyd cyfres o gyfweiliadau ffôn a wyneb-yn-wyneb gyda holl

sefydliadau'r Fforwm Sirol i gasglu'r wybodaeth ac ystyried pa ganran o'u gwaith oedd yn diwallu'r 5 amcan. Lluniwyd adroddiad oedd yn dangos y berthynas rhwng y gweithgarwch i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ag amcanion y Strategaeth ac adnabod yr amcanion hynny ble roedd llai o waith yn digwydd ar y pryd. Llwyddodd y gwaith hefyd i adnabod bylchau a'r meysydd hynny yr oedd angen canolbwyntio mwy arnynt.

Roedd y canlyniadau yn awgrymu fod llai o waith yn digwydd i geisio effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth (amcan 3), targedau ardaloedd daearyddol (amcan 4) a marchnata a hyrwyddo'r iaith (codi statws y Gymraeg) (amcan 5), a thipyn mwy o waith yn digwydd yn y meysydd caffael sgiliau (creu siaradwyr Cymraeg newydd felly) a magu hyder siaradwyr Cymraeg ac felly'r defnydd o'r Gymraeg.

Arweiniodd yr ymchwil at waith pellach gan gynnwys:

- ymgyrchoedd i farchnata ar y cyd a marchnata'r Gymraeg yn hytrach na'r gweithgareddau.
- Bod y Ddwyeithog: prosiect partneriaethol i godi ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg Lluniwyd llyfryn i hyrwyddo magu plant yn ddwyieithog ac addysgu bobl am y system addysg drochi ac i fwrw rhai mythau penodol am addysg a'r Gymraeg.
- Gwnaed cais llwyddiannus am gyllid i gael swyddogion i weithio ar yr ardaloedd blaenoriaeth o fewn y Strategaeth.
- Gwaith gydag Adran Dai y Cyngor i dargedu mewnfudwyr gan gynnwys gwaith o addasu llyfryn gwreiddiol Llywodraeth Cymru i greu Pecyn Croeso
- Ail-osod targedau'r Mentrau Iaith yn unol a'r amcanion yn y strategaeth

YMCHWIL AC AROLWG

Comisiynwyd darn o waith ymchwil a chasglu data ar fesuryddion posib i fesur llwyddiant yn erbyn amcanion y strategaeth hybu gyda'r bwriad yn y dyfodol o ddwyn ynghyd mesuryddion posibl i fesur sefyllfa'r Gymraeg yn y sir. Bwriedir hefyd i'r ymchwil alluogi'r Cyngor i ganfod gwaelodlin a mesur cynnydd yn erbyn amcanion y strategaeth.

Yn dilyn yr ymchwil, gwelwyd nad oedd unrhyw ffordd o fesur amcan 4, sef statws y Gymraeg o fewn y sir. O ganlyniad, lluniwyd holiadur ar y cyd â sefydliadau'r Fforwm Sirol ble gofynnwyd cyfres o gwestiynau am agweddau at ddwyieithrwydd, dealltwriaeth ac agweddau tuag at addysg Gymraeg a'u defnydd cyffredinol o'r Gymraeg.

Gofynnwyd 23 o gwestiynau fel rhan o'r holiadur oedd yn ymwneud ag agweddau at ddwyieithrwydd, dealltwriaeth ac agweddau at addysg Gymraeg, mynychder eu defnydd o'r Gymraeg ac ble/gyda phwy maent yn defnyddio'r Gymraeg. Roedd y cwestiynau yn ceisio gweld a oedd pobl yn deall natur gymhleth cyfrwng addysg y sir. Gofynnwyd cwestiynau fel y canlynol:

'Yn eich barn chi, a fydd plant yn dod yn ddwyieithog pa bynnag ysgol fyddant yn mynychu yn Sir Gâr?

Roedd yr arolwg hefyd yn ceisio mesur ymwybyddiaeth y trigolion o'r darpariaethau Cymraeg oedd ar gael. Gofynnwyd cwestiynau fel y canlynol:

Oes cangen o'r isod yn eich ardal chi?

- *Urdd*
- *Cylch Meithrin*
- *Cylch Ti a Fi*
- *Clwb Ffermwyr Ifanc*
- *Cangen Merched y Wawr neu Glwb*
- *Gwawr*
- *Menter Iaith*
- *Darpariaeth cyfrwng Cymraeg arall*
- *Gwersi Cymraeg i Oedolion*

Mae'r Holiadur yn cael ei weinyddu drwy gyrff y Fforwm Sirol ac roedd y rhaglen SNAP yn golygu bod modd cwblhau'r holiadur ar dabled neu ar bapur ac mae'r rhaglen ei hun yn cynhyrchu'r adroddiad sy'n caniatáu ystod eang o ddata penodol.

Y bwriad yw y bydd gan y Cyngor waelodlin o statws y Gymraeg yn y sir, ond hefyd gwybodaeth defnyddiol am arferion ac am ddefnydd o wasanaethau y trydydd sector a'r sector cyhoeddus.

SUT GALL HYN WEITHIO I SEFYDLIADAU ERAILL?

Roedd y ffactorau canlynol yn allweddol bwysig i lwyddiant y gwaith:

- Cydweithio â sefydliadau eraill o fewn yr ardal sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg.
- Cynnal arolwg i ganfod agweddau tuag at y Gymraeg ac addysg Gymraeg yn ogystal â dysgu am ddefnydd trigolion o'r Gymraeg.
- Cytuno ar waelodlin a mesuryddion y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn amcanion y strategaeth
- Gosod ac addasu targedau o fewn y strategaeth hybu ar sail canfyddiadau'r arolygon

Manylion cyswllt

Enw: Myfanwy Jones - Swyddog Polisi Iaith Gymraeg

Sefydliad: Cyngor Sir Gâr

E-bost: MyJones@carmarthenshire.gov.uk

BARN Y COMISIYNYDD

Gyda tharged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, mae llawer iawn o'r gyrff yn cydnabod yr angen iddynt ystyried eu cyfraniad nhw i'r weledigaeth genedlaethol. Rwy'n croesawu ymagwedd rhagweithiol y cyngor i gychwyn

ar y gwaith o baratoi at fesur effaith a chynnydd yn erbyn amcanion y strategaeth. Er bod y gwaith yn y camau cychwynnol o hyd, edrychaf ymlaen at weld y datblygiadau pellach a fydd, o bosib, yn cynnig arweiniad i sefydliadau eraill ar sut i adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion eu strategaethau hybu. Rwyf wedi cyhoeddi dogfen gyngor *Safonau ynghylch hybu'r Gymraeg* sydd yn cynnig cefnogaeth i awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol yng Nghymru wrth iddynt weithredu eu strategaethau 5 mlynedd.